YSGOL ABERCONWY

26.05.2022

Annwyl Riant / Warcheidwad

**Un voyage à Paris**

Mae'r adran Ieithoedd Dramor Modern yn trefnu taith 4 diwrnod, penwythnos hir i Baris, Ffrainc, i ddisgyblion ITM ym mlynyddoedd 9 – 13 (blynyddoedd 8 – 12 ar hyn o bryd), o **31ain Mawrth - 3ydd Ebrill 2023**

Mae'r daith hon ar gyfer disgyblion Bl. 8 ar hyn o bryd sy'n ystyried astudio ITM fel pwnc TGAU, disgyblion Bl.9 eleni sydd wedi dewis ITM fel opsiwn TGAU yn barod, a disgyblion Bl. 10-12 sydd yn astudio ITM ar hyn o bryd.

Bydd angen pasbort eu hunain ar eich plentyn os ydynt yn dymuno dod.

**Cost £360** - Gellir talu'r arian mewn rhandaliadau wythnosol neu fisol. Mae'r pris yn cynnwys:

- llety mewn gwesty
- prydau bwyd
- teithio ac yswiriant teithio
- pob gwibdaith.

Bydd angen gwneud pob taliad drwy School Gateway neu'r App School Gateway. Byddwn yn darparu amserlen talu yn ogystal a manylion defnyddio'r App, i bob disgybl, unwaith y byddwn yn cadarnhau eu lle ar y daith. Y dyddiad cau ar gyfer y taliad terfynol fydd Ionawr 2023.

Mae gan yr adran ITM flynyddoedd lawer o brofiad o fynd â grwpiau ysgol i Ffrainc. Ni ddylid tanbrisio gwerth ymweliad o'r fath. Mae Ffrangeg yn fwy na gwers, mae'n bobl, yn wlad, yn ffordd o fyw y gall disgyblion ei phrofi drostynt eu hunain. Mae hon yn ffordd ddelfrydol o adnabod Ffrainc, o ddysgu a mwynhau'ch hun ar yr un pryd.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â: Miss Nia Williams (Visit Organiser)

Yr eiddoch yn gywir

Miss N Williams


MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE